

# *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

**Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth yr 11ed o Fai 2010.**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen – Talysarn; Elwyn Jones Griffith, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Eurig Evans – Nebo. Etholwyd Mr Barry Bracegirdle yn Gyngorydd newydd dros Penygroes – bydd yn ymuno a'r Cyngor yn ein cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn derbyn cynnig BT ac yn mabwysiadu'r blwch ffonio yn Nebo, yn ddibynnol ar dderbyn caniatad cynllunio. Y bwriad yw y bydd y blwch ffonio coch yn cael ei ddefnyddio i'r un pwrpas a hysbysfwrdd yn y pentref.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- 3 Cae Melan, Penygroes – cais i osod gwaith trin carthion ar gyfer defnydd preswyl annedd sydd yn y broses o'i gwblhau. Roedd pryder ban y Cyngor y byddai'n creu posibilwrydd o lygredd i'r cartref henoed drws nesaf.
- Mynwent Salem, Llanllyfni – cais i ddymchwel storfa a chreu mynediad newydd i gerbydau. CANIATAU.
- 4 Ffordd Haearn Bach, Penygroes – dymchwel estyniad presennol yn rhannol a chodi estyniad newydd. CANIATAU.
- Cennin, 40 Ffordd y Sir – dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad newydd. CANIATAU.
- CPD Dyffryn Nantlle, Penygroes – codi cysgodfeydd a diwygio amod ar ganiatad cynllunio ayyb. CANIATAU.

Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio eraill, sef caniatáu gosod gwaith trin carthion ar gyfer defnydd preswyl yn rhif 2 Cae Melan, Ffordd y Sir, a chaniatáu cais cynllunio Tan Drwfwl, Nasareth.

Derbyniwyd copi o fap gan Gyngor Gwynedd yn dangos y ffyrdd sydd yn cael eu graeanu yn ystod cyfnodau rhew ac ati, byddwn yn ysgrifennu atynt i ofyn os oes posib ychwanegu Ffordd Penllwyn, Talysarn at y ffyrdd 'blaenoriaeth 1'.

Cafwyd manlyion hefyd o Orchymyn 30mya a 50 mya Talysarn. Roedd y Cyngor yn derbyn y newidiadau arfaethedig.

Darllenwyd llythyr gan y Clwb Ieuenctid, Penygroes, yn gofyn i'r Cyngor am gael dod i gyfarfod i roi cyflwyniad i'r Cynghorwyr am eu gweithgareddau. Byddwn yn rhoi gwahoddiad iddynt ddod yn fuan.

## **Adroddiadau Pentrefi.**

### **Penygroes**

\*Ffens Cwting – Mae'n debyg bod cerbyd wedi bagio i'r ffens, ac wedi malu 2 bostyn concrit.

\*Cyfyngiad 50mya hen ffordd A487 Inigo Jones i Penygroes – Bu Ifan ac Elwyn mewn cyfarfod safle gyda Adrian Williams a swyddog arall o Gyngor Gwynedd. Bydd y Cyngor Cymuned yn gwrthod y newidiadau arfaethedig nes bod yr arwydd 30 mya yn cael ei symud ymhellach allan o'r pentref, neu bod rhyw system arall yn cael ei gyflwyno i arafu traffic (fel arwydd sy'n fflachio, neu gylhau'r lon) ger Gallt Dorwen.

**Nebo** Arwydd Ffordd Cors y Llyn wedi diflannu oddi wrth ymyl y gof golofn. Byddwn yn gofyn am un arall yn ei le.

**Llanllyfni** Tipio anghyfreithlon Lon Coed Cae Du. Byddwn yn cysylltu unwaith eto gyda Gyngor Gwynedd.

**Talysarn / Nantlle** Coed rhwng Talysarn a Nantlle angen eu trimio. Byddwn cysylltu gyda Cyngor Gwyned.

**Materion yn ymwneud a'r heddlu.** Cafwyd adroddiad bod mainc wedi ei dwyn o gae chwarae Cwting. Darllenwyd ebost Alex Higgins yn adrodd yn ol ar faterion diweddar. Roedd pryder fod diffyg presenoldeb plismyn ym Mhenygroes – byddwn yn gofyn am fwy o bresenoldeb yn enwedig ar nos Wener. Poteli wedi malu yma ac acw ar fore Sadwrn – hefydd byddwn yn codi hyn yng nghyfarfod nesaf 'Deud dy Ddeud.

### **Cystadleuaeth Arddio**

Gan fod stoc y tai Cyngor wedi eu trosglwyddo bellach i 'Cartrefi Cymunedol Gwynedd', y cwmni newydd fydd yn cefnogi'r gystadleuaeth arddio eleni, ynghyd a Canolfan Arddio Fron Goch.

Eleni, felly, bydd categori ar gyfer tai preifat, a chategori ar gyfer tai Cartrefi Cymunedol. Bydd mynediad i'r gystadleuaeth yn awtomatig i dai Cartrefi Cymunedol, yn yr un modd ag oedd yn digwydd gyda thai Cyngor yn y gorffennol.

Os am ymgeisio yn y gystadleuaeth, yna gofynnwn i berchnogion gerddi tai preifat gysylltu gydag Alwen ar **01286 660644** i gofrestru. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bentrefi Nantlle, Nebo, Nasareth, Llanllyfni, Penygroes a Thalysarn, ac **erfynnwn** ar bobl i roi eu henwau ymlaen, boed yr ardd yn un fawr neu yn un fach, gan bod y gwobrau yn werth eu cael.